

## Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr

Llantarnam Grange yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer crefftau a chelfyddydau gweledol yn y de ddwyrain. Rydyn ni'n elusen wedi'n lleoli yng nghanol Cwmbrân, gyda'n gwreiddiau yn ein cymuned leol a chyrhaeddiad ledled gwledydd Prydain. Rydyn ni'n chwilio am ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'n bwrdd, ac yn chwilio am bobl sydd â'r brwdfrydedd, y sgiliau a'r profiad i helpu i arwain ein gwaith yn cefnogi artistiaid, gwneuthurwyr, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd. Rydyn ni am glywed lleisiau a safbwyntiau newydd i'n helpu ni, a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw, i ffynnu.

Rydyn ni'n annog ceisiadau yn benodol gan bobl sydd â phrofiad byw o'r Gymraeg, gan gefnogi ei datblygiad yn niwylliant Cymru; pobl sydd ag anableddau; a phobl groenliw. **Os ydych chi wedi'ch ysbrydoli gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ac os ydych chi am ymuno â ni fel aelod o'n bwrdd, bydden ni'n falch o gael clywed gennych.**

### Am y swyddi

#### Y Cadeirydd

#### Cyffredinol

- Arwain y bwrdd a'r sefydliad i'w alluogi i gyflawni ei ddiben.
- Gweithredu fel llefarydd ac arweinydd fel y bo'n briodol, gan gynrychioli'r sefydliad ar y cyd â'r Cyfarwyddwr.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar strategaeth ac yn monitro penderfyniadau sydd wedi'u dirprwyo i'r rheolwyr.
- Sicrhau bod gwybodaeth gywir, amserol ac eglur yn cael ei darparu i Ymddiriedolwyr.
- Sicrhau perthynas effeithiol rhwng
  - y Bwrdd a'r staff/gwirfoddolwyr
  - y Bwrdd a'r rhanddeiliaid allanol/y gymuned.
- Sicrhau bod rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr ar gyfer yr holl Ymddiriedolwyr newydd, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr / Ysgrifennydd Cwmni.
- Sicrhau effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr unigol a'r Bwrdd cyfan.
- Mynd i'r afael ag anghenion datblygu'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd gyda golwg ar wella ei effeithiolrwydd gan gynnwys sesiynau adolygu rheolaidd ar bynciau fel cyfrifoldebau a statws cyfreithiol.
- Adolygu eu perfformiad eu hunain, yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr unwaith y flwyddyn.

#### Yn benodol

- Cynllunio a pharatoi cyfarfodydd y Bwrdd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol gydag eraill fel y bo'n briodol.

- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd gan sicrhau:
  - bod cydbwysedd rhwng cadw amser a sicrhau lle ar gyfer trafodaethau.
  - bod busnes yn cael ei drin a phenderfyniadau'n cael eu gwneud.
  - bod penderfyniadau, camau gweithredu a thrafodaethau'n cael eu cofnodi'n ddigonol.
  - bod cyfrifoldeb am weithredu penderfyniadau'n cael ei ddyrannu'n glir a'i fonitro.
- Sicrhau bod trefniadau cefnogi a goruchwyllo digonol yn cael eu gwneud ar gyfer y Cyfarwyddwr ac unrhyw staff/gwirfoddolwyr eraill sy'n cael ei rheoli'n uniongyrchol neu sy'n adrodd i'r Bwrdd.
- Sicrhau bod olynnydd yn cael ei ganfod cyn i dymor y swydd ddod i ben.

### **Rhinweddau**

- Parodrwydd i arwain y sefydliad
- Yn bwyllog, yn ddiplomataidd ac yn gallu perswadio
- Yn meddu ar wybodaeth berthnasol
- Yn meddu ar y sgiliau perthnasol i gynnal cyfarfod yn dda
- Yn feddylgar am eu swydd
- Yn myfyrio'n gyson ar sut i wneud yn well – yn myfyrio ar gryfderau a gwendidau, ac yn gwybod pryd, sut a ble i geisio cyngor a chymorth
- Yn canolbwyntio ar ddiben y sefydliad a'r bobl a'r achosion y sefydlwyd Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange i'w gwasanaethu.

### **Y Trysorydd**

#### **Cyffredinol**

- Goruchwyllo materion ariannol y sefydliad a sicrhau eu bod yn gyfreithiol, yn gyfansoddiadol ac o fewn arferion cyfrifyddu derbynol.
- Monitro ac adrodd ar iechyd ariannol y sefydliad.
- Cyngori'r Bwrdd ar bob mater sy'n ymwneud â chyllid.
- Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw.
- Goruchwyllo'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau/ffurflenni ariannol, cyfrifon ac archwiliadau angenrheidiol.

#### **Yn benodol**

- Cydgysylltu â staff perthnasol ac aelodau'r Bwrdd i sicrhau hyfywedd ariannol y sefydliad.
- Gwneud cyd-aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau ariannol ac arwain ar ddehongli data ariannol iddynt.
- Adrodd ar y sefyllfa ariannol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- Goruchwyllo'r gwaith o gynhyrchu cyllideb flynyddol a chynnig ei bod yn cael ei mabwysiadu yng nghyfarfod ola'r flwyddyn ariannol flaenorol.
- Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw a bod gweithdrefnau a rheolaethau ariannol effeithiol ar waith.
- Gwerthuso hyfywedd ariannol cynlluniau, cynigion ac astudiaethau dichonoldeb.
- Arwain ar benodi a chydgysylltu ag archwilydd/archwilydd annibynnol.

## Rhinweddau

- Gwybodaeth a phrofiad o arferion cyllid a chodi arian cyfredol sy'n berthnasol i Ganolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange.
- Gwybodaeth am gadw cyfrifon a rheolaeth ariannol.
- Sgiliau dadansoddi ariannol da.
- Gallu cyfathrebu'n eglur.

## Ymddiriedolwr

Mae pob aelod o'r Bwrdd yn sicrhau bod gwaith llywodraethu da yn y sefydliad. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfreithiol gyfrifol am yr elusen, yn goruchwyllo datblygiad strategaeth, yn monitro cyllid a pherfformiad sefydliadol, ac yn cytuno ar sut i reoli'r risgiau rydyn ni'n eu hwynebu. Mae ymddiriedolwyr hefyd yn gweithredu fel llysgenhadon, gan hyrwyddo ein gwaith, datblygu partneriaethau newydd a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

## Pob swydd

Rydyn ni'n ymroddedig i sicrhau bod ein bwrdd yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Drwy hyn, rydyn ni'n golygu ar sail hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, gwreiddiau ethnig / cenedlaethol, crefydd neu gred, anabledd, statws ariannol, ble mae pobl yn byw, neu'r profiadau maen nhw wedi'u cael. Rydyn ni'n annog ceisiadau yn benodol gan bobl sydd â phrofiad byw o'r Gymraeg, gan gefnogi ei datblygiad yn niwylliant Cymru; pobl sydd ag anableddau; a phobl groenliw. Rydyn ni'n chwilio yn arbennig am bobl a all ein helpu ni yn y meysydd penodol a gaiff eu nodi isod, ond dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd gan un person bopeth rydyn ni'n chwilio amdano. Felly rhowch wybod i ni beth yw eich cryfderau a beth allwch chi ei gyfrannu at y bwrdd.

Rydyn ni'n chwilio'n arbennig am bobl sydd â phrofiad o **arwain, cyfrifyddu, gweithrediadau manwerthu/masnachol**, pobl sydd â gwybodaeth am **ailldatblygu cyfalaf**, pobl sydd â phrofiad o **weithio mewn swydd uwch yn un o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru**, a phobl sydd â phrofiad byw fel cyfranogwyr yn ein gwaith.

Darperir rhaglen ymsefydlu lawn, ac os nad ydych chi wedi bod yn ymddiriedolwr o'r blaen, fe wnawn ni eich cefnogi â hyfforddiant, mentora, a chynllun cyfeillio gydag ymddiriedolwr arall.

## Yr ymrwymiad

Rydyn ni'n chwilio am unigolion ymroddedig sy'n gallu cyfrannu at lwyddiant Llantarnam Grange yn y dyfodol. Gan weithio mewn modd cadarnhaol fel aelod o dîm, bydd angen i chi allu cynnig eich amser a'ch arbenigedd, dangos crebwyll ac annibyniaeth, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau, bod yn barod i siarad eich meddwl, deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol bod yn ymddiriedolwr, parchu cyfrinachedd, ac ymrwymo i lynu at saith egwyddor bywyd cyhoeddus Pwyllgor Nolan (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae gofyn i ymddiriedolwyr fynd i bedwar cyfarfod o'r bwrdd ac un cyfarfod cyffredinol blyneddol bob blwyddyn – cymysgedd o gyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae pob cyfarfod yn para tua 2½ awr. Mae 2-3 cyfarfod arall y flwyddyn lle mae staff ac ymddiriedolwyr yn cydweithio i ganolbwyntio ar bynciau penodol. Mae hefyd angen amser darllen a pharatoi. Fe'ch anogir i ddod i agoriadau arddangosfeydd a digwyddiadau i gyflawni eich rôl fel llysgennad ar gyfer ein gwaith yn eich rhwydweithiau. Dylech hefyd fod yn barod i gyfrannu cyngor ar eich maes/meysydd penodol o brofiad / arbenigedd drwy gydol eich tymor yn y swydd.

## Ynglŷn â Llantarnam Grange

Mae Llantarnam Grange yn cyflwyno arddangosfeydd a rhaglen helaeth o addysg ac ymgysylltiad gyda'r gymuned leol a'n partneriaid ledled Cymru a gwledydd Prydain. Fe agoron ni yn 1966, ac rydyn ni wedi'n lleoli mewn maenordy o'r 19<sup>eg</sup> ganrif yng nghanol Cwmbrân. Mae'r adeilad yn gartref i ofodau oriel, siop greffttau, caffi, ac ystafelloedd addysg a chyfarfod. Rydyn ni'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd o hyd at 45,000 y flwyddyn yn ein prosiectau yn y ganolfan, mewn safleoedd eraill a thrwy weithgarwch allgymorth. Mae hoffter ein cynulleidfa o'r adeilad a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddo wedi golygu ein bod wedi aros yn flaenllaw yng nghymuned gelfyddydol a chymdeithasol Torfaen ers dros hanner can mlynedd.

Rydyn ni'n creu Lleoliad Digidol i gefnogi ein cynulleidfaoedd ymhellach ac i ymestyn ein cyrhaeddiad y tu hwnt i bedair wal ein cartref Fictoraidd ac i mewn i fywydau eraill. Un o'n hymrwymiaidau allweddol ar gyfer y dyfodol yw datblygu'r adeilad ei hun, er mwyn cynyddu ei gapasiti a gwella hygyrchedd yn sylweddol.

Ein **gweledigaeth** yw creu cymuned sy'n dathlu ac yn cefnogi doniau a llesiant yn y celfyddydau gweledol, ledled Cymru. Ein **cenhadaeth** yw cefnogi ac ysbrydoli artistiaid a chynulleidfaoedd drwy ddysgu creadigol, gan gynnig lle ar gyfer ymgysylltiad sifig er mwyn llesiant ein cymunedau, gan rannu gwaith artistiaid gweledol a gwneuthurwyr o bob rhan o Gymru, gwledydd Prydain ac yn rhyngwladol.

Mae ein cynllun busnes diweddaraf ar gael [yma](#).

## Ein strwythur llywodraethu

Elusen gorfforedig yw Llantarnam Grange, sy'n cael ei llywodraethu gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Mae uchafswm o naw ymddiriedolwr a gaiff eu penodi gan fwrdd Llantarnam Grange, ac uchafswm o bump a gaiff eu penodi gan y cynghorau bwrdeistref a chymuned lleol.

Mae ganddon ni Banel Cyngori leuenctid hefyd. Fe'i sefydlwyd yn 2021, a recriwtiwyd y 7 gwirfoddolwr o'n rhaglenni Criw Celf a Portal. Maen nhw'n cefnogi ein gwaith yn frwd drwy gynnig syniadau a datrysiadau gyda gweithgareddau ymarferol a gweithdai. Mae eu barn yn hanfodol i'n dyfodol gan fod cymaint o'n gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygiad creadigol pobl ifanc.

## Telerau Penodi

Cadeirydd a Thrysorydd – i ddechrau 03 Rhagfyr 2022  
Ymddiriedolwr – i ddechrau 01 Rhagfyr 2022

Y cyfan am gyfnod o dair blynedd, a bydd modd eu hadnewyddu unwaith. Swydd wirfoddol yw hon, ac nid oes tâl. Mae modd hawlio treuliau i fynd i gyfarfodydd.

## Rhagor o wybodaeth

I gael gwybod mwy, neu i drefnu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Louise Jones-Williams y Cyfarwyddwr, drwy [louisejw@llantarnamgrange.com](mailto:louisejw@llantarnamgrange.com) neu ar **01633 483321**

## Sut i wneud cais

Cyflwynwch eich CV, llythyr eglurhaol, a'r ffurflen fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael drwy [glicio ar y ddolen hon](#) i Elaine Cabuts, Cadeirydd, drwy [ecabuts@lgac.org.uk](mailto:ecabuts@lgac.org.uk) neu drwy'r post i Elaine Cabuts, Cadeirydd, Canolfan Gelfyddydau Llantarnam Grange, Heol Dewi Sant, Cwmbrân, Torfaen, NP44 1PD

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** 10yb dydd Llun 03 Hydref 2022
- **Cyfweliadau**
  - Swyddi Cadeirydd ac Ymddiriedolwr: Dydd Gwener 07 Hydref 2022
  - Swydd Trysorydd: Dydd Mawrth 11 Hydref 2022
- **Cychwyn**
  - Swydd ymddiriedolwr: 01 Rhagfyr 2022
  - Cadeirydd a Thrysorydd 03 Rhagfyr 2022
  - Pwrpas yr amseriadau yw eich galluogi i ddod i gyfarfod y bwrdd ar 27 Hydref 2022 ac arsylwi.